SUL CYFFREDIN 11

2 SAMUEL 7:1-14A; SALM 89:20-37;
EFFESIAID 2:11-22; MARC 6:30-34, 53-56

● **Gweddi agoriadol**
Ym mhresenoldeb y Tad,
y Mab a'r Ysbryd Glân,
dri yn un,
cyflwynwn ein hoffrwm
o addoli a moli.

Ym mhresenoldeb ein gilydd,
yn agored ac o ddifri
cadarnhawn
undod
ein teulu,
yn un corff yng Nghrist.

● **Moliant**
Ni oedd gynt ymhell –
a grwydrodd
fel pe mewn diffeithwch
yn chwilio am ddŵr,
yn awchu am gysgod –
gorffwyswn nawr yn dy freichiau,
ymborthwn ar dy air,
yfwn o ffynnon
na fydd byth yn sychu,
ac a gafodd hyd i'r lle
y chwiliem amdano,
gan i Grist ein dwyn adre.

● **Cyffes**

Pan anghofiwn
i ni dderbyn maddeuant
am bopeth sy'n achosi tywyllwch yn ein bywydau,
atgoffa ni o'r gras a'r heddwch
a'n dygodd ni i'r lle hwn.

Pan anghofiwn
mai dy blant ydym
a bod dy enw ar ein calon,
atgoffa ni am Fab Duw
a'n dygodd i'r lle hwn.

Pan anghofiwn
i ni gael ein dewis
a'n harfogi i wneud dy waith,
atgoffa ni o rym y cariad
a'n dygodd i'r lle hwn.

● **Diolch**

Am y cariad tragwyddol,
nad oes iddo ffiniau
nac amser na thymor.

Arweinydd: Dad cariadus
Pawb: Derbyn ein diolch cywir.

Am gariad amyneddgar,
sy'n fwy parhaol
nag aur nac arian.

Arweinydd: Dduw cariadus
Pawb: Derbyn ein diolch cywir.

Am gariad grasol,
sydd mor faddeugar
ac a roir yn rhad.

Arweinydd: Dad cariadus
Pawb: Derbyn ein diolch cywir.

Am rodd cariad,
y gallwn ei rannu
â chyfaill neu ddieithryn.

Arweinydd: Dad cariadus
Pawb: Derbyn ein diolch cywir.